*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 3A(7)(b) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Amddiffyn rhag Tybaco) 1991, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

---

# 2011 Rhif (Cy. )

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Amddiffyn rhag Tybaco (Gwerthiannau o Beiriannau Gwerthu) (Cymru) 2011

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwahardd gwerthu tybaco o beiriant awtomatig.

Mae rheoliad 2 yn gwahardd gwerthu tybaco o beiriant awtomatig. Gwneir y person sydd â rheolaeth ar y fangre y lleolir y peiriant awtomatig ynddi, neu sy'n rheoli'r fangre honno, yn atebol am doriad o'r gwaharddiad hwn.

Hysbyswyd y Comisiwn Ewropeaidd am ddrafft o'r Rheoliadau hyn fel safon dechnegol yn unol â Chyfarwyddeb 98/34/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L204, 21.7.1998, t.37) sy'n gosod gweithdrefn ar gyfer darparu gwybodaeth ym maes safonau a rheoliadau technegol, fel y'i diwygiwyd.

Paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn o effaith yr offeryn hwn ar gostau busnes, a rhoddwyd ef yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copïau ohono o'r Gangen Ymddygiadau Risg i Iechyd, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2011 Rhif (Cy. )

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Amddiffyn rhag Tybaco (Gwerthiannau o Beiriannau Gwerthu) (Cymru) 2011

*Gwnaed* ***

*Yn dod i rym* *1 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 3A o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Amddiffyn rhag Tybaco) 1991(**1**).

Mae drafft o'r Rheoliadau hyn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo yn unol ag adran 3A(7)(b) o'r Ddeddf honno.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Amddiffyn rhag Tybaco (Gwerthiannau o Beiriannau Gwerthu) (Cymru) 2011 a deuant i rym ar 1 Chwefror 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Gwahardd gwerthu tybaco o beiriannau gwerthu**

**2.**—(1) Gwaherddir gwerthu tybaco o beiriant awtomatig.

(2) Bydd y person sydd â rheolaeth ar y fangre y lleolir y peiriant awtomatig ynddi, neu sy'n ymwneud â rheoli'r fangre honno, yn atebol am doriad o baragraff (1).

---

(**1**) 1991 p.23. Mewnosodwyd adran 3A gan Ddeddf Iechyd 2009 (p.21), adran 22. *Gweler* adran 3A(8) am y diffiniad o "the appropriate national authority".

(3) Yn y rheoliad hwn, mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw le ac unrhyw gerbyd, llong, hofrenfad, stondin neu adeiledd symudol.

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad